OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 No. 1281

# Rheoliadau Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2019

## RHAN 7

## Diwygiadau i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â goruchwylio rheolaeth a defnydd cyffuriau a reolir a datgelu cofnodion addysgol a diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â diogelu data

**Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008**

**7.**—(1) Mae Rheoliadau Cyffuriau a Reolir (Goruchwylio Rheolaeth a Defnydd) (Cymru) 2008(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) hepgorer y diffiniad o "y GDPR";

(b) yn y lle priodol mewnosoder—

"mae i "GDPR y DU" yr un ystyr ag a roddir i "the UK GDPR" yn Rhannau 5 i 7 o Ddeddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3(10) a (14) o'r Ddeddf honno);".

(3) Yn rheoliad 25(7) (dyletswydd i gydweithredu drwy ddatgelu gwybodaeth ynglyn â phersonau perthnasol), yn lle "neu'r GDPR" rhodder "neu GDPR y DU".

(4) Yn rheoliad 26(6) (cyrff cyfrifol yn gofyn am wybodaeth ychwanegol i gael ei datgelu am bersonau perthnasol), yn lle "neu'r GDPR" rhodder "neu GDPR y DU".

(5) Yn rheoliad 29(3) (adroddiadau ar ddigwyddiadau), yn lle "neu'r GDPR" rhodder "neu GDPR y DU".

(**1**) O.S. 2008/3239 (Cy. 286), a ddiwygiwyd gan adran 211(1)(b) o Ddeddf Diogelu Data 2018 (p. 12) a pharagraff 334 o Atodlen 19 iddi. Mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan O.S. 2019/419 ond ni ddaw'r rhain i rym tan y diwrnod ymadael. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.